Ddiddanydd anfonedig nef

Caneuon Ffydd: Rhif 593

Ddiddanydd anfonedig nef,
fendigaid Ysbryd Glân,
hiraethwn am yr awel gref
a'r tafod tân.

Erglyw ein herfyniadau prudd
am brofi o'th rad yn llawn,
gwêl a oes ynom bechod cudd
ar ffordd dy ddawn.

Cyfranna i'n heneidiau trist
orfoledd meibion Duw,
a dangos inni olud Crist
yn fodd i fyw.

Am wanwyn Duw dros anial gwyw
dynolryw deffro'n llef,
a dwg yn fuan iawn i'n clyw
y sŵn o'r nef.

Rho'r hyder anorchfygol gynt
ddilynai'r tafod tân;
chwyth dros y byd fel nerthol wynt,
O Ysbryd Glân.

GWILI, 1872–1936

MYFYRDOD

Erfyniad sydd yma eto, gan Gwili y tro hwn, am brofi yr un effeithiau yn ein dyddiau ninnau ag a brofwyd ar ddydd y Pentecost, lle rhoddwyd bod i'r Eglwys a phryd y gwelwyd ei genedigaeth hi trwy lafur yr Ysbryd Glân, neu'r 'Diddanydd arall' y mae Iesu'n ei addo i'w ddisgyblion (Ioan 14:16, BWM). Dyna yw teitl yr emyn hwn gan Gwili yn yr hen gasgliadau: 'Y diddanydd arall'. Cyfieithiad yw'r teitl hwn o'r gair Groeg *Paracletos*, a aeth bellach yn y Beibl Cymraeg Newydd yn 'Eiriolwr'. Am y *Paracletos* y gelwid pan oedd rhywun mewn cyfyngder. Dyma'r un a fyddai'n codi calonnau milwyr isel eu hysbryd, neu'n cadw cwmni i'r rhai a fyddai'n aros i gael eu dedfrydu, yn llefaru ar ran ei gyfaill ac yn 'cadw ei bart'. Apelir at y Diddanydd trwy'r emyn ar iddo gynnig ei gymorth inni yn ein cyfyngder. Mae'n clywed ein 'herfyniadau prudd', yn rhoi gorfoledd i'n 'heneidiau trist', ac yng nghanol oerni ein gaeaf ysbrydol fe ofynnir iddo 'ddeffro'n llef' am 'wanwyn Duw'.

Roedd Gwili yn byw yn Rhydaman yn ystod Diwygiad 1904–5, a'i brofiad yn ystod y diwygiad hwnnw sy'n gefndir i'r emyn hwn. Fe glywodd y 'sŵn o'r nef' ac fe deimlodd 'yr awel gref' yn Rhydaman y cyfnod hwnnw. Mae yna ddwyster arbennig i'w ddefnydd o'r gair 'hiraethwn' felly, oherwydd allwn ni ddim bod yn hiraethus, mewn gwirionedd, am bethau na wyddom ni ddim amdanyn nhw neu lefydd na fuom ni erioed ynddyn nhw.

Yn ei gyfrol *O Gopa Bryn Nebo* fe adrodda W. Nantlais Williams, a oedd yn weinidog yn Rhydaman yn ystod y cyfnod, am yr hyn a ddigwyddodd dros un penwythnos yn Nhachwedd 1904. Roedd Gwili'n darlithio i'r Gymdeithas Lenyddol ym Methani ar yr un noson ag a drefnwyd cyfarfod answyddogol yn y capel wedi ymweliad Joseff Jenkins â'r pentref. Cyn diwedd y ddarlith fe glywyd canu bendigedig yn dod o'r capel a phethau rhyfeddol yn digwydd yno. Denwyd gwrandawyr y ddarlith i fendithion y capel, ac fe aeth y cyfarfod a ddechreuodd yno am wyth o'r gloch ymlaen hyd hanner awr wedi dau yn y bore.

Hiraetha Gwili am brofiadau fel hyn eto, ond mae'n gwybod na ddaw'r Diddanydd yn ei rym hyd nes y byddwn wedi paratoi'r ffordd ar ei gyfer. 'Gwêl a oes ynom bechod cudd ar ffordd dy ddawn', meddai yn ei ail bennill, gan wybod y gall ein hanghrediniaeth ni, ein hofn rhag cael ein newid a'n hamharodrwydd i blygu ac i ildio i Dduw, osod rhwystrau yn ei ffordd. 'Peidiwch â thristáu Ysbryd Glân Duw' ydy'r rhybudd a rydd Paul i gredinwyr Effesus (Eff. 4:30). Croesawn ef a bod yn ddigon gwylaidd i adael iddo ef ein harwain at yr 'hyder anorchfygol gynt ddilynai'r tafod tân'. Gweddïodd yr apostolion am yr hyder hwnnw (Actau 4:24–31), ac yn wir fe fu iddyn nhw ei dderbyn gan eu galluogi i lefaru gair Duw yn hy. Cawsant hefyd 'nerth mawr' a 'gras mawr' (Actau 4:33) ynghyd ag undod mawr goruwchnaturiol ymysg ei gilydd.

GWEDDI

Cyfarchwn di, y Diddanydd dwyfol, a gofynnwn yn wylaidd ar iti ddod unwaith eto i'n plith gan roi inni wanwyn Duw yma yng Nghymru eto. Mae'r hanesion yn codi hiraeth arnom, Arglwydd Iesu, ar iti roi eto dy nerth a'th ras a'th undeb di dy hun yn ein plith trwy dy Ysbryd Glân. Er mwyn dy enw. Amen.